

Tasg 3

Llew fel anifail anwes

Mae grwpiau cadwraeth yn dweud bod teuluoedd o anifeiliaid yn cael eu lladd er mwyn dal babi i fod yn anifail anwes.

Beth ydy'ch barn chi am gadw llew – neu anifail gwyllt arall – fel anifail anwes?

Mae'n greulon iawn achos
mae'r llew eisiau bod yn rhydd.
Lois

Mae'n syniad da achos mae'r
llew yn cael cariad.
Steph

Creulon iawn!
John

Heb os nac oni bai, mae'n greulon.
Mae llewod yn unig iawn os ydyn
nhw'n anifeiliaid anwes.
Patrick

Mae'n syniad ardderchog achos
mae'r llew'n cael bwyd a dŵr.
Tom

Dw i'n meddwl bod y llew'n
cael cartref da – syniad da, felly.
Parminda

Ofnadwy! Mae llew eisiau rhedeg
y tu allan – dim aros yn y tŷ neu
mewn sied.
Idris

Ar un llaw, mae'n cael bwyd a
diod ond ar y llaw arall mae'n
unig.
Lily

Geirfa

cadwraeth	conservation	rhydd	free
yn cael eu lladd	are killed	sied	shed
er mwyn	in order to	unig	lonely
cadw	(to) keep	creulon	cruel
ar un llaw...	on the one hand ...	ar y llaw arall ...	on the other hand ...

ANIFEILIAID ANWES GWAHANOL

1. Ydy'r bobl o blaid neu yn erbyn cadw anifeiliaid gwyllt fel anifeiliaid anwes? Ysgrifennwch yr enwau yn y grid.

O BLAID	YN ERBYN

2. Beth ydy'ch barn chi am gadw llew fel anifail anwes?

Trafodwch y cwestiwn yma mewn grŵp.

- Meddyliwch am bethau da i ddweud. Gwnewch nodiadau – pwyntiau bwled.
- Trafodwch y cwestiwn mewn grŵp. Gwnewch nodiadau wrth i chi drafod.
- Cymharwch syniadau'ch grŵp chi gyda syniadau grwpiau eraill.

3. Beth ydy'ch barn chi am gadw anifeiliaid gwyllt eraill fel anifeiliaid anwes?

Trafodwch y cwestiwn yma mewn grŵp.

- Meddyliwch am bethau da i ddweud. Gwnewch nodiadau – pwyntiau bwled.
- Trafodwch y cwestiwn mewn grŵp. Gwnewch nodiadau wrth i chi drafod.
- Cymharwch syniadau'ch grŵp chi â syniadau grwpiau eraill.

4. Ysgrifennwch lythyr at bapur bro. Ysgrifennwch am:

- faint o anifeiliaid gwyllt sy'n anifeiliaid anwes ym Mhrydain heddiw.
- beth ydy'ch barn chi am hyn.

Geirfa

o blaid	in favour (of)	wrth i chi drafod	as you discuss
yn erbyn	against	papur bro	community newspaper